| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **16 Ionawr 2012** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

## 2. Penderfyniadau

### Achos 201100466

Cwyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned:

- Yn ymwneud â mynediad i ffordd breifat a cham-ddefnyddio trefniadau casglu sbwriel. Ni welai'r Ombwdsmon bod yma dystiolaeth uniongyrchol bod y Cynghorydd wedi defnyddio ei rôl fel Cynghorydd Cymuned i gael ffafriaeth.
- Y Cynghorydd ddim yn dangos parch tuag at drigolion. Ni welai'r Ombwdsmon fod cysylltiad digonol rhwng ei ymddygiad honedig a'i rôl fel Cynghorydd Cymuned.
- Ymddygiad bygythiol. Yr achwynydd wedi derbyn Cyngor gan yr heddlu.
- Anghydfod rhwng yr achwynydd a'r Cynghorydd ynglŷn â wal derfyn. Ystyriwyd hwn yn fater preifat.

Penderfyniad: Peidio Ymchwilio.

### Achos 3018/201100769

- Yr achwynydd yn honni bod y Cynghorydd wedi torri cymal 6 (ch) o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd sydd yn datgan na ddylai aelodau o'r Cyngor wneud cwynion blinderus neu faleisus. Yr Ombwdsmon yn credu nad oes tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi'r gwyn fod yr aelod wedi trosglwyddo manylion cwyn a wnaed ganddo yn erbyn cynghorydd arall i'r wasg. Hefyd roedd yr aelod wedi cyflwyno ffeithiau digonol i'r Ombwdsmon i gefnogi'r gŵyn. Mater i'r Ombwdsmon yn y pendraw fyddai penderfynu os oedd sail i'r gŵyn.

Penderfyniad: Peidio Ymchwilio.

**Achos 201101116**

Cwyn gan aelod o'r Cyhoedd yn erbyn Cynghorydd:

- Fod y Cynghorydd wedi aflonyddu ar yr achwynydd trwy ymweld â'i gartref ar fwy nag un achlysur ac wedi ymddwyn yn fygythiol ac yn amhroffesiynol tuag at ymwelydd yr achwynydd. Wedi ymchwilio'r gwyn a'r dystiolaeth gefnogol mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu nad yw'r ymddygiad honedig yn ddigonol i dorri'r Cod Ymddygiad. Yn ogystal gan fod tystiolaeth wrthgyferbyniol wedi ei roi gan y Cynghorydd ni fyddai'n bosib i'r Ombwdsmon ddod i gasgliad pendant am yr hyn a ddigwyddodd.

Penderfyniad: Peidio Ymchwilio.

**Achos 201102027**

- Y Cynghorydd wedi defnyddio ei theitl 'Cynghorydd Tref' wrth gynrychioli gweithwyr mewn Tribiwnlys Cyflogaeth ac felly wedi defnyddio ei safle yn amhriodol. Gan fod y camddealltwriaeth ynglŷn â chysylltiad y Cyngor Tref a'r achos eisoes wedi ei egluro a bod yr aelod wedi ei hatgoffa na ddylid defnyddio ei theitl yn y modd yma, ni fyddai hyn yn arwain at gosb hyd yn oed petai'r Cod Ymddygiad wedi ei dorri.
- Y Cynghorydd wedi trafod achos y Tribiwnlys Cyflogaeth yn gyhoeddus ac wedi gwneud sylwadau negyddol am fusnes yr achwynydd yn gyhoeddus. Er bod y Cod Ymddygiad yn gallu bod yn berthnasol i faterion preifat ar yr achlysur yma roedd y Cynghorydd yn siarad fel unigolyn mewn digwyddiad Cymdeithasol, nid fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ac felly gyda hawl i fynegi barn.

Penderfyniad: Peidio Ymchwilio.

**Achos 3275/201102339**

Cwyn yn erbyn Cynghorydd Tref:

- Yr achwynydd yn honni bod y Cynghorydd wedi dod i'w gartref wedi gwrthod gadael ac wedi ymosod arno. Yr Ombwdsmon yn ystyried nad yw'r mater yn un sydd yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod gan fod y Cynghorydd yn gweithredu fel unigolyn preifat ar y pryd. Hefyd, deliwyd gyda'r mater drwy'r llys ynadon yn yr ardal lle digwyddodd y mater ac nid oedd yr achwynydd wedi cyflwyno tystiolaeth ddigonol i ddangos fod yr aelod wedi dwyn anfri ar yr awdurdod neu ei safle fel cynghorydd. Yn ogystal gan fod tystiolaeth wrthgyferbyniol wedi ei roi gan y Cynghorydd am yr hyn ddigwyddodd ni fyddai'n bosib i'r Ombwdsmon ddod i gasgliad pendant am yr achos.

Penderfyniad: Peidio Ymchwilio.

**Achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau**

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gwyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 30 Medi 2011. Penderfynodd y Pwyllgor:

- Y dylai gael ei wahardd am fis
- Y dylai ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar y Cod Ymddygiad;
- Y dylid dileu rhannau perthnasol y blog ar unwaith;
- Y dylai ymddiheuro i'r Cynghorydd Dyfed Edwards am y sylwadau yn y blog

Mae cyfnod gwaharddiad y Cyng. Jones wedi dod i ben erbyn, mae hefyd wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad at y Cyng. Edwards. Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal hyfforddiant ar ei gyfer yn fuan. Mae'r darnau o'r blog dyddiedig 9 Hydref 2009 a 24 Chwefror 2010 wedi eu tynnu oddi ar Flog y Cyng. Jones.

Rhoddwyd rhybudd yn y papurau newydd yn unol â'r gofynion statudol yn hysbysu'r cyhoedd fod copi o'r adroddiad ar gael ar wefan ac yn swyddfa'r Cyngor (atodir copi o'r adroddiad fel **Atodiad** er gwybodaeth).

## 3. Achosion heb benderfyniad

**Achos 201100673**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

**Achos 201100986**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod drwy wneud sylwadau di-sail am fywyd personol a phroffesiynol yr achwynydd.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

**Achos 3329/201102729**

Cwyn gan gyd-aelod Cyngor Cymuned fod:

- Y Cynghorydd heb ddatgan buddiant pan drafodwyd ei Gais Cynllunio.
- Y Cynghorydd heb adael yr ystafell er i aelodau eraill nodi fod ganddo fuddiant a gofyn iddo adael.
- Gofyn i'r clerc am wybodaeth yn ymwneud â'r cais cynllunio.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.